

Gan ddefnyddio fframwaith Entrecomp, gwerthuswch yn feirniadol eich creadigrwydd a'ch menter eich hun ac ystyried sut y gallech chi ddatblygu sgiliau creadigol a mentrus dysgwyr cynradd trwy'ch addysgeg eich hun.

Caiff creadigrwydd ei adfarnu fel sgil hanfodol yn yr unfed ganrif ar ugain (World Economic Forum, 2016). Yn ogystal â hyn amlinella Sir Ken Robinson fod ymarfer fod yn greadigol yn cryfhau ac yn atgyfnerthu sgiliau, gwybodaeth a syniadau plant yn yr ysgol (Robinson, 2015). Nid yw'n gyfrinach chwaith fod creadigrwydd yn sgil datblygiadol, allweddol yn y cwricwlwm sy'n datblygu yng Nghymru gyda'i ymgorfforiad cadarn ym mhedwar diben Donaldson (2015). Yn amlinelliad o'r amcanion cwricwlaidd, noda un ohonynt y bydd plant yn gyflawnwyr mentrus a chreadigol ar ddiwedd eu taith o addysg. Mae'r uchod i gyd yn sôn am resymau gwahanol ac amrywiol am bwysigrwydd creadigrwydd ym mywydau plant ond oes 'na wir un diffiniad cytûn o'r gair. Un peth yw nodi ac adfarnu pam yr ydym yn dysgu ein plant i fod yn greadigol ond sut y gallwn gwblhau hyn os nad ydynt yn ymwybodol o wir ystyr y gair. Yn y pecyn byddaf yn edrych ar fenter a chreadigrwydd ac yn dadbigio gwybodaeth i weld fy nghyraeddiadau creadigol fy hun yn ogystal â sut i hyrwyddo creadigrwydd yn yr ysgol gynradd.

Diffiniad Creadigrwydd:

Awgryma Cherry (2018) mae'r ffordd gorau o ddiffinio creadigrwydd yw'r gallu i ddatrys problemau neu i greu rhywbeth newydd mewn ffordd newydd. Gellir dadlau fod y ddau beth hyn, datrys a chreu, yn disgrifio elfennau gwahanol oherwydd mae datrys problem yn un cam, ond i greu rhywbeth arall bydd angen sgiliau gwahanol ar y plant. Efallai mai'r ffordd fwyaf dibynadwy a chywir i ddiffinio creadigrwydd yw edrych yng ngeiriadur Oxford. Diffinia creadigrwydd yn uniongyrchol fel "The use of imagination or original ideas to create something". Eto, yn wahannol i'r ddau ddiffiniad uchod mae Waititi (2010), mewn clip fideo 'TEDx Talk', yn diffinio creadigrwydd fel sgil o weld y byd o'n cwmpas drwy lygad plentyn. Amlinella'r ddau esboniad cyntaf mae creadigrwydd yw'r broses o feddwl a chreu. Yn wahanol i hyn, dadansodda'r diffiniad olaf creadigrwydd mewn cyd-destun realistig a esbonia beth mae creadigrwydd yn ei olygu iddo ef. Yn amlwg mae ceisio defnyddio gair allweddol megis creadigrwydd yn anodd gan nad yw un athronydd a'r llall yn cytuno a wir ddiffiniad y sgil. Yn bersonol, y diffiniad fwyaf perthnasol rwyf wedi darganfod yw Csikszentmihalyi (2004) yn ei TED Talk, wrth gyfeirio at berson yn y broses o greadigrwydd dywed:

“He can’t feel even that he’s hungry or tired, his body disappears, his identity disappears from his consciousness because he doesn’t have enough attention, like none of us do, to really do well something that requires a lot of concentration and at the same time to feel that he exists.”

Mihally Csikszentmihalyi (2004)

Mae dadansoddiad Csikszentmihalyi yn ddiddorol tu hwnt, mae’n ddiffiniad gall berson wenieithu efo. Mae’r syniad o gau’r meddwl yn un rwyf yn cytuno gydag oherwydd fy mhrofiadau creadigol, personol yn y gorffennol. Fel casgliad o’r diffiniad, yn y pecyn hwn byddaf yn dadansoddi creadigrwydd fel y sgil o fod yn agored a gweld heibio’r hyn sydd yn weledol (Lobel, 2018). Yn ogystal â hyn byddaf yn ystyried creadigrwydd fel sgil i feddwl a chreu rhywbeth newydd yn yr ysgol. I fyfyrion ar greadigrwydd fy hun byddaf yn ystyried sut rwyf yn addysgu yn yr ysgol gan arfogi plant gyda’r sgiliau angenrheidiol i ddatblygu creadigrwydd.

Diffiniad Menter:

Yn ôl geiriadur Caergrawnt (2019) caiff menter ei hystyried fel agwedd neu’n ansawdd unigolyn i ddangos awch i greu rhywbeth newydd a chlyfar, heb feddwl am risg. Yn debyg i hyn mae Stern (1994) yn dadlau fod sgiliau menter plant yn cael ei ddiffinio fel y gweithrediad o sgiliau mewn cyd-destunau amrywiol. Noda hefyd fod gweithredi yn y ffordd hon yn atgyfnerthu dealltwriaeth plant yn y dasg wrth alluogi hwy i afael ar destun mewn ffordd ymarferol. Yn wahanol i’r diffiniadau uchod, mae’n hawdd iawn i gysyllti fenter yng cyd-destun corfforaethol. Dyweda’r Business Dictionary (2019) fod menter yn gallu cyfeirio at fusnes neu gwmni, yn amlwg nid yw hwn yn cyfeirio at addysgeg yn yr Ysgol Gynradd. Yn y pecyn, byddaf yn ystyried menter fel gallu’r plant i daflu eu hun at bethau newydd yn y dosbarth. Yn ogystal â hyn byddi’r yn ystyried menter fel sgil a pharodrwydd plant i geisio ar gyfleoedd newydd, diddorol, gydag egni a brwdfrydedd (Hytti, 2004).

Manteision a Chyfngiadau Creadigrwydd a Menter i Athrawon:

Wrth ymchwilio at addysgeg creadigrwydd, dyweda Levy (2018) fod dysgu mewn ffyrdd creadigol yn cynnig saib haeddiannol o’r cwricwlwm sy’n gallu ail atgyfnerthu plant i ymdrech fwy mewn sesiynau. Ychwanega fod dysgu mewn ffordd creadigol yn ddull

arbenigol i wella sgiliau ieithyddol plant heb yn wybod iddynt: bydd plant yn gallu ysgrifennu neu ganu cân, ffocysir hyn ar elfen o gyfansoddi omd hefyd byddai'r sesiwn yn ymarfer elfennau ieithyddol y plant. Nid yw'r erthygl yn dweud fod pob elfen o ddysgu creadigol yn cynnig yr ateb terfynol i addysg. Yn hwyrach yn yr erthygl, amlinella fod treulio gormod o amser ar ddysgu agweddau creadigol yn amharu ar rediad a gweithrediad y cwricwlwm yn yr ysgol a olyga fod athrawon yn gwastraffu amser. Rhaid iddynt hwy ofyn y cwestiwn felly ac ydyw ffocysu ar elfennau creadigol yn bwysig yn y cwricwlwm presennol ai beidio. Gan feddwl am weithrediad i adolygiad Donaldson (2015) fel y cwricwlwm newydd i Gymru, cyhoedda'r adolygiad y gair creadigol 35 o weithiau a chynnwys menter 15 o weithiau sy'n amlinelli bwysigrwydd y sgiliau. Felly, yn y cwricwlwm sy'n newid yng Nghymru byddai'r sgiliau yn hanfodol a ofynnol i athrawon ddysgu i blant yn y dosbarth. Mae'n amlwg felly byddai meithrin y sgiliau hyn ynghyd a'r gallu i'w ddysgu yn sgil euraidd i athrawon Cymru.

Dadleua Sawyer (2004) fod dysgu yn eu hun yn greadigol i athrawon, gan gyfeirio at y maes fel perfformiadau byrfyfyrddig dyddiol. Gwelaf felly fod meithrin a datblygu sgiliau creadigol athro yn fantais i allu agor posibiliadau dysgu ar draws ystod eang o bynciau. Cyflwyno hyn ddadl ynglŷn â'r ffordd rydym yn cael ein gofyn i addysgu sesiynau gan y brifysgol. Os oes rhaid iddynt hwy lenwi ffurflen (wedi ei sgriptio mwy neu lai) ynglŷn â'r sesiwn addysgu o flaen llaw, pa gyfle sydd gennym i newid trywydd dysgu ac i geisio pethau newydd. A bai efallai, a chyfyngiad mwyaf creadigrwydd yn bersonol yw'r ffordd mae darpariaeth addysg yn ein hysgolion? Amlinella Barnes (2015) yn ei syniad o 'Addysgu Trawsgwricwlaidd Oportiwistaidd' fod addysgu creadigol yn cynnig manteision i athrawon. Cyniga fod addysgu mewn ffordd greadigol yn gadael y plant i gymerid fwy o gyfrifoldeb am yr hyn sy'n digwydd yn y dosbarth gan fod y trywydd yn cael ei harwain gan y plant. Mae llawer o ysgolion yn dilyn yr esiampl hon megis Ysgol Gynradd Pembre lle mae diddordebau'r plant yn ganolog i'r dysgu (Estyn, 2018). Fel ymateb i'r gweithrediad hyn ofynnwyd i'r staff addysgu agweddau sydd o ddiddordeb i'r plant, i wneud hyn rhaid i'r staff ddangos creadigrwydd i feddwl am gyd-destunau addas i weithredu agweddau cwricwlaidd. Cytuna felly fod athrawon creadigol yn hyblyg ac yn gallu troi eu hun at unrhyw broblem sy'n codi. Pletha hyn yn gelfydd gyda menter athro yn y dosbarth. Pe bai athro yn barod ac yn awyddus i fod yn greadigol, byddai'r sgiliau menter yn ymddangos yn reddfodol i'r athro. Trwy ddweud hyn, golyga fod yr athro mentrus yn barod i newid y dysgu a cheisio pethau newydd yn y dosbarth, dilyna'r argymhell hyn un o argymhellion Donaldson (2015) a amlinella "Defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu". Dangosa'n uniongyrchol fod

defnyddio menter a chreadigrwydd yn y dosbarth yn fantais i athrawon gan fydd yr argymhell hyn yn sail i'r cwricwlwm diwygiedig yng Nghymru.

Yn fideo Sir Ken Robinson, "Do Schools Kill Creativity?", coda bwyntiau allweddol ynglŷn â'r gweithrediad o greadigrwydd ynghyd a menter mewn ysgolion. Nid yw Robinson yn cyfeirio'n uniongyrchol at fai ysgolion am weithrediad creadigrwydd a menter ond dyma'r awgrym sy'n codi. Wrth gyfeirio at y systemau addysg mewn ysgolion, honna fod plant yn cychwyn ysgol ffurfiol yn gyflym a bod systemau megis eistedd yn ffurfiol mewn dosbarth trwy'r dydd yn ddideimlad creadigrwydd plant. Gwelaf mai cyfyngiad mwyaf creadigrwydd a menter i athrawon yw eu gallu hwy eu hunain. Mae'n hawdd iawn i berson ddweud "Nid wyf yn greadigol" felly hawdd yw bod hyn yn cael effaith ar blant yn y dosbarth. Nid wyf am eiliad yn beirniadi athrawon Cymru, ond nid oes cyfleoedd ar gael i athrawon datblygu sgiliau eu hunain mewn swydd sydd yn gofyn gymaint ohonyn nhw yn barod. Pe bai cyllid, neu fwradau gan gynghorau lleol i flaenoriaethu creadigrwydd a menter yn eu Hysgolion fydd ddim yna broblem. Mae'n anodd iawn felly, mewn cwricwlwm presennol, lle mae ffocws ar gyrhaeddiad academiaidd, teimlaf mai'r cyfyngiad mwyaf yw'r system bresennol. Gobeithiaf, yn debyg i lawer iawn o athrawon Cymru, fydd gweithrediad y caclwm newydd yn galluogi athrawon i dderbyn fwy o hyfforddiant i allu blaenoriaethu sgiliau creadigol a menter yn eu sesiynau. Dadleuir hefyd, os nad yw plant yn derbyn y gefnogaeth a'r gwrthiad cywir gyda'i syniadau, pa gyfle sydd ganddynt. Pe baent yn cael ei gwrthio yn ôl yn gyson, heb dderbyn unrhyw ganmoliaeth o'i athrawon, pa gyfle sydd ganddynt? Mae'n rhaid i ni fod yn gefnogol os ydynt eisiau dyfodol llewyrchus, creadigol i'n plant.

Fy Nghreadigrwydd:

I asesu creadigrwydd fy hun, rwyf am ddefnyddio'r fframwaith EntreComp. Cafodd y fframwaith hwn ei greu ar ran yr Undeb Ewropeaidd i greu adeiladu parth rhwng y byd gwaith a byd addysg. Honna fod defnydd effeithiol o'r fframwaith hwn yn arfogi plant i'r dyfodol. Hefyd, yn ôl y fframwaith, cyniga ffordd i wella datblygiad i fod yn ddinasyddion byd-eang ynghyd a gwella cyflogadwyedd yn y dyfodol. Yn anffodus, pan ysgrifenna'r ddogfen, yn 2016, nid oedd y ddogfen wedi cael ei treiali na'i ddatblygu mewn sefyllfaoedd go iawn. Cwestiynaf felly a yw'r fframwaith yn rhoi syniad ac amlinelliad cywir o'r camau gweithredol sydd angen i asesu creadigrwydd. Un peth yw creu dogfen, ond rhaid iddo gael ei ddefnyddio a'i phrofi mewn sefyllfaoedd realistig.

Yr elfen gyntaf o'r fframwaith byddaf yn ffocysu arno yw creadigrwydd: datblygu creadigrwydd a syniadau pwrpasol. Teimlaf yn gryf fod y sgil o greadigrwydd yn cael ei rhannu a'i throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Cytuna Fradera (2017) gyda thystiolaeth o ymchwil cadarn fod hyn yn bosib. Teimlaf yn lwcus gan oedd fy Nhad yn bensaer, cynigodd hyn cyfleoedd euraidd i mi weithio gydag ef gan adeiladu a chreu beth bynnag oedd cwsmer angen. Arweiniodd hyn ataf i ddilyn cwrs dylunio a thechnoleg fel cymhwyster Lefel A. Gwelaf Atodiad 1 a ddangosa cadair siglo adeiladais ar ddiwedd y flwyddyn. Cychwyniad drwy ymchwilio, creu darluniau, treiali nodweddion megis deunyddiau cyn mynd ati i greu'r cynnyrch terfynol. Yn y tabl EntreComp teimlaf fy mod wedi cyrraedd lefel 7 o ddiffinio problem a ddywed "I can initiate, develop, manage and complete a creative project." Credaf hyn gan oedd y dyluniad yn gwbl gwreiddiol ag oedd na bwrpas i'r prosiect. Teimlaf mai'r unig beth sy'n fy nghadw rhag bod ar lefel 8 o drawsffurfio yw'r elfen o greu rhywbeth sy'n cynhyrchu gwerth dros amser. Pe baf yn parhau yn y maes hwn ac yn datblygu ystod o greadau neu ddatblygu cynhyrchion amrywiol, yn debyg i'r ffordd mae cwmnïoedd enfawr megis Dyson neu Rolex, dechreuodd pawb yn rhywle.

Teimlaf hefyd fy mod yn greadigol gyda fy ystumiau. Bues yn aelod o Glwb Berfformio Dyffryn Tywi fel plentyn a ddysgais lawer ynglŷn â defnyddio corf i berfformio a sut i fynegi fy hun ar lwyfan drwy gân, action neu ddawns. Defnyddiais y sgiliau hyn yn yr Ysgol Gynradd ag uwchradd i wneud perfformiadau megis Les Miserable, Cats a Phantom of the Opera. Pletha'r sgil o berfformio gyda'r elfen creadigrwydd: datblygu creadigrwydd a syniadau pwrpasol, yn fwy penodol, fod yn chwilfrydig ac agored. Teimlaf fy mod, yn ôl y fframwaith, ar lefel 6 oherwydd dyma'r ffit orau am y sefyllfa hon, dyweda "I can combine my understanding of different contexts to transfer knowledge, ideas and solutions across different areas". Credaf hyn oherwydd dau reswm penodol. Yn gyntaf, rwyf yn defnyddio sgiliau megis dawns a chanu a'i chyfuno mewn sioeau megis fy sioe diweddara yn Nadolig 2018 gydag Ysgol Bro Dinefwr (Atodiad 2). Yn y sioe roedd rhaid i mi ddysgu sut i sgleddfrolio! Ar ôl dysgu'r sgil roedd rhaid i mi wedyn defnyddio sgiliau actio i roi cymeriad i fy hun ac i roi profiad llewyrchus i'r sawl a oedd yn gwyllo. Yr ail reswm rwyf wedi dewis y lefel hyn yw oherwydd fy ngallu i drosglwyddo gwybodaeth i addysgu plant. Dangosa Atodiad 3 fy mod yn gallu trosglwyddo sgiliau perfformio, creadigol drwy gynorthwyo a chefnogi mewn sioe Nadolig ysgol Gynradd tra'r oeddwn ar PAP. Yn ôl y fframwaith, hon yw'r lefel uchaf rwyf allu cyrraedd yn y maes hwn ond anghytunaf a hyn. Anghytunaf a hyn oherwydd nid yw'r sgil yn y fframwaith yn sôn am rannu syniadau neu'r posibilrwydd o

addysgu eraill yn y maes. Beth yw pwrpas meithrin sgil os nac ydych yn barod i'w rannu gydag eraill?

Ar ôl edrych ar y fframwaith teimlaf nid yw'n wir ddangos elfennau creadigol athrawon, neu fenter athro i addysgu plant. Hefyd, mae'r eirfa sy'n cael ei ddefnyddio yn y fframwaith ddim wir yn briodol am yr hyn rwyf geisio ei eirio. Mewn rhai meysydd, megis enterpeneriaeth, nid wy'n amau fod y fframwaith yn ddefnyddiol iawn iddynt. Ym myd addysg, nid oes unrhyw wir gysylltiad gyda gwaith athro a'r fframwaith EntreComp. Deallaf fod 'na gysylltiad rhwng gweithio gydag eraill ond does dim cyfeiriad at arweiniaeth neu strategaethau dysgu. Gwelaf fy hun fel person creadigol a mentrus iawn, ond teimlaf nid yw'r fframwaith wedi rhoi cyfle i mi wir allu ddangos fy ngallu fel athro, a pherson creadigol.

Ehangu Creadigrwydd yn y Dosbarth:

Un peth yw diffinio creadigrwydd ond peth arall yn llwyr yw defnyddio a hybi greadigrwydd yn y dosbarth. Pan yn ddisgrifio athrawon, dyweda The Telegraph (2017) "The first quality of a modern teacher is people management, in the sense both of enforcing discipline and of motivating pupils, and that knowledge comes a distant second." Mae'n diddorol oherwydd dadleua nid oes ots os fydd unigolyn yn greadigol ac yn meithrin y sgiliau eu hun, ond mae'r gallu i drosglwyddo ysgogiad cadarnhaol i'r plant. Yn y rhan hon byddaf yn amlinelli strategaethau gall athro defnyddio yn rheolaidd i hybi greadigrwydd yn ei ddosbarth.

Un dechneg sydd wedi cael effaith cadarnhaol o ran creadigrwydd yn Ysgol Gynradd Cumran yw'r defnydd o hetiau De Bono. Yn syml, mae yna 6 chwe het i'w ddewis ohono ac mae gan bob agwedd wahanol o sut i feddwl. Pletha gyda chred De Bono "Creativity involves breaking out of established patterns in order to look at things in a different way". Cytuna Mulder (2011) gyda'r defnydd o'r hetiau gan ei fod yn hybi cyd- weithio, un o argymhellion Donaldson (2015), ac yn datblygu proses meddwl plant. Hefyd mae Optima Training Limited (2015) o'r farn fod intergreiddio'r hetiau yn ffordd arbenig o ddysgu disgyblaeth i'r plant drwy gorfodi hwy i feddwl mewn ffordd penodol. Mae'r strategaeth yn gymorth i blant feddwl "Tu allan i'r bocs", byddai'r ffyrdd hyn o feddwl yn datblygu'n mewnol yn y plant trwy gydol ei bywydau. Yn anffodus, mae'r hetiau yn fasnachol felly mae'n rhaid i ysgolion brynnu'r syniad. Yn amlwg bydd yna gost i hyn felly mae'n ddibynnol iawn ar weithrediad yr ysgol.

Strategaeth arall sy'n cael ei ddefnyddio yw D.a.w.n.s.i.o. sef:

- Dadwneud
- Ad-Drefnu
- Gwyrddroi
- Newid Pwrpas
- Addasu
- Eilyddio
- Cyfuno

Mae'r strategaeth yn cyfuno llawer o elfennau gwahanol i hybi addysgeg greadigol. Pwrpas yr elfen hon yw annog athrawon newid ei chynlluniau gwersi. Er enghraifft, byddai athro yn gallu Eilyddio mewn gwers celf drwy wneud plant i dynnu lluniau yn defnyddio bysedd neu draed yn hytrach na ddefnyddio'r offer priodol. Ffordd arall gall athro ddefnyddio'r strategaeth yn y dosbarth yw Cyfuno sesiynau neu bynciau gyda'i gilydd. Er enghraifft, i atgyfnerthu sgiliau gwyddoniaeth ar soledau a hylifiannau gallant wneud hyn drwy action allan priodweddau'r adnoddau. Mae'r dechneg yn ddibynnol iawn ar hyder yr athro dosbarth. Rhaid i'r unigolyn fod yn barod i ymgeisio ac i arbrofi yn y strategaeth os maent am weled cynnydd yn y plant.

Hoffwn drafod elfen bwysig iawn yn greadigrwydd plant. Rwy'n sôn am yr ystafell ddosbarth. Mae'r ystafell ddosbarth cyffredinol gyda phedair wal drwchus, ffenestri uchel, golau llachar, cadeiriau plastig caled ac yn amlach neu beidio y maen nhw'n boeth ofnadwy. Dyweda McCorne (2017) fod yn hanfodol i gael amgylchedd cyfforddus i fod yn greadigol. Yn ogystal â hyn mae Greenway (2015) yn dadlau fod angen golau naturiol i fod yn greadigol. Yn debyg i'r uchod mae Ruijter (Dyddiad anhysbys) o'r farn fod amgylchedd gyda golau naturiol yn effeithio'n sylweddol ar blant a'i chreadigrwydd. Gwele felly fod yn allweddol i athro greu amgylchedd cadarnhaol, naturiol i'r plant. Mae hyn yn rhywbeth gall athro gweithredi heb wario llawer o arian. Gall athro sicrhau fod yna air fresh yn yr ystafell wrth agor ffenestri a sicrhau fod yna ddigon o olau yn yr ystafell. Mae rhai ysgolion hefyd yn meithrin y syniad o ddefnyddio clustogau ar gadeiriau'r plant i annog osgo cyfforddus. Mae'r uchod yn syml iawn ond yn cael effaith mawr ar greadigrwydd plant.

Pwynt allweddol bydd yn gymorth i athrawon bydd ei gallu i asesu creadigrwydd. Amlinella ddogfen OECD (2013) dwy nodwedd effeithiol o asesu creadigrwydd. 1. Bydd athrawon yn

fwy hyderus yn datglymu creadigrwydd plant. 2. Plant yn gallu deall a ystyried beth sydd angen i fod yn greadigol. Parha'r ddogfen i ddadlau nad oes eto fframwaith cytûn ar asesu creadigrwydd. Cwestiynaf felly a yw'r fframwaith EntreComp yn ddefnyddiol ac yn gywir yn ei ffordd os nad yw'n gytûn a phob randdeilliaid ym myd addysg. Uwcholeua'r ddogfen elfennau pwysig megis hyfforddiant athrawon fel strategaeth i asesu creadigrwydd plant, pwynt a choda o hyn yn amlwg yw cysondeb dros ystod o ysgolion a gwneir canlyniadau yn hafal i bawb. Dangosa Gwaith ymchwil Miller (2013) i Edutopia fod asesu creadigrwydd yn bosib i athrawon ond fod 'na un broblem. Dyweda mai'r broblem fwyaf yn y maes yw gwybodaeth athro am asesu creadigrwydd, os ydym eisiau fod yn ddifrifol am weithredi'r sgil o greadigrwydd, rhaid i ni gael canllawiau clir am sut i'w wneud.

Casgliad:

Gwelir, yn y pecyn, dadansoddiadau ac awgrymiadau o fenter a chreadigrwydd yn yr ysgol gynradd ynghyd a beirniadaeth o fy nghreadigrwydd dy hun fel athro cynradd. Pwynt clir teimlaf sydd angen codi o'r testun yw bwriadau a blaenoriaethau athrawon i weithredi'r sgiliau hyn yn y dosbarth. Dyweda Vygotsky (1934) "What a child can do with assistance today, he can do it alone tomorrow". Dangosa fod rhaid i athrawon fod ar flaen y gâd yn y maes os ydyn am lwyddo i ddatglybu'r sgiliau bwysig hyn.

Agwedd a gwelaf yn amlwg o waith ymchwil yw nid ydym yn mynd i newid y byd dros nos. Fel darpar athro, teimlaf yn ffrainc ac yn gyfrifoldeb i wireddi'r sgiliau hyn pan fyddaf wedi graddio. Digalonnaf drwy ddarllen am blant yn colli sgiliau creadigrwydd mewn ysgol, sefydliad a godir i wneud y gwrthwyneb o hyn. Pe bawn am arfogi ein plant am y dyfodol yn llwyddiannus, rhaid i ni wir ffocysu ar y cwricwlwm a rhoi cyfle iddi weithredi yn ein hysgolion. Os nad ydym yn tynnu at ein gilydd fel athrawon, bydd na ddim siawns i'n plant lwyddo ac i lewyrchu yn y gweithle. Ar ôl dweud hyn, meddyliaf am ddisgrifiad Twiselton (2003) o swydd athrawo, dyweda, "Whose priority was to meet the requirements of the given plan or scheme". Felly os glynwn gyda Donaldson, bydd yna gobaith i'r dyfodol oherwydd bydd dim dewis arall gennym.

Wrth ysgrifennu'r pecyn cefais gyfle i fyfyrion a syntheseisio creadigrwydd fy hun. Roedd yn ddiddorol tu hwnt beirniadi fy hun yn y ffordd hon. Teimlaf fod y Gwaith wedi gwella dealltwriaeth yn y maes a gobeithiaf ddatblygu fy sgiliau mwy yn y dyfodol agos tra ar leoliad.

Nifer o Eiriau: 3,265

Rhestr o Gyfeirnodau:

Barnes, J. (2015) *Cross Curricular Learning 3-14*, London: SAGE

Business Dictionary. (2019) *Enterprise*. Cyrchwyd:

<http://www.businessdictionary.com/definition/enterprise.html> (Mynediad 12 Ionawr 2019).

Cambridge Dictionary. (2019) *Meaning of Enterprise in The English Dictionary*. Cyrchwyd:

<https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/enterprise> (Mynediad 13 Ionawr 2019).

Cherry, K. (2018) *The Psychology of Creativity*. Cyrchwyd:

<https://www.verywellmind.com/what-is-creativity-p2-3986725> (Mynediad 10 Ionawr 2019).

Curman Primary School. (Dim Dyddiad) *Why Use Thinking Hats?* Cyrchwyd:

<http://www.cumranprimary.co.uk/thinking-hats/> (Mynediad 23 Ionawr 2019).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Llywodraeth Cymru: Caerdydd.

Estyn. (2018) *Cynllun cwricwlwm creadigol mwy hyblyg i ennyn diddordeb disgyblion*.

Cyrchwyd: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/cynllun-cwricwlwm-creadigol-mwy-hyblyg-i-ennyn-diddordeb-disgyblion> (Mynediad 20 Ionawr 2019).

Fradera, A. (2017). *Is Creativity Something You Inherit From Your Parents?* Cyrchwyd:

<https://digest.bps.org.uk/2017/01/16/is-creativity-something-you-inherit-from-your-parents/> (Mynediad 22 Ionawr 2019).

Greenway, S. (2015) *How Does Environment Influence Creative Thinking?* Cyrchwyd:

<https://www.thestrategydistillery.com/news/environment-influence-on-creative-thinking/> (Mynediad 26 Ionawr 2019).

Levy, S. (2018) *The Limitations of Creative Teaching Methods*. Cyrchwyd:

<https://busyteacher.org/22220-creative-teaching-methods-limitations.html> (Mynediad 18 Ionawr 2019).

Lucas, B., Claxton, G., Spencer, E. (2013) *Progression in Student Creativity in School*. OECD Publishing.

McCorne, R. (2017) *10 Ways To Make Your Environment More Creative*. Cyrchwyd: <https://www.ideastogo.com/articles-on-innovation/creative-environments> (Mynediad 24 Ionawr 2019).

McLeod, S. (2018) *Lev Vygotsky*. Cyrchwyd: <https://www.simplypsychology.org/vygotsky.html> (Mynediad 27 Ionawr 2019).

Miller, A. (2013) *Yes, You Can Teach and Assess Creativity!*. Cyrchwyd: <https://www.edutopia.org/blog/you-can-teach-assess-creativity-andrew-miller> (Mynediad 27 o Ionawr).

Mulder, P. (2011). *Six Thinking Hats*. Cyrchwyd: <https://www.toolshero.com/decision-making/six-thinking-hats-de-bono/> (Mynediad 24 Ionawr 2019).

Optia Training Limited (2015) *Six Thinking Hats*. Cyrchwyd: <https://www.youtube.com/watch?v=oHiwpz7r4wY> (Mynediad 25 Ionawr 2019).

Oxford Living Dictionaries. (2019) *Definition of Creativity in English*. Cyrchwyd: <https://en.oxforddictionaries.com/definition/creativity> (Mynediad 11 Ionawr 2019).

Sawyer, R. (2004) *Creative Teaching: Collaborative Discussion as Disciplined Improvisation*. Cyrchwyd: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.3102/0013189X033002012> (Mynediad 19 Ionawr 2019).

Sir Robinson, K. (2007). *Do Schools Kill Creativity?* Cyrchwyd: <https://www.youtube.com/watch?v=iG9CE55wbtY> (Mynediad 21 Ionawr 2019).

Sir Robinson, K. (2015) *Creativity Is In Everything, Especially Teaching*. Cyrchwyd: <https://www.kqed.org/mindshift/40217/sir-ken-robinson-creativity-is-in-everything-especially-teaching> (Mynediad: 10 Ionawr 2019).

Stern, D. (1994) *School-Based Enterprise: Productive Learning in American High Schools. The Jossey-Bass Education Series*. Cyrchwyd: <https://eric.ed.gov/?id=ED375279> (Mynediad 14 Ionawr 2019).

The Telegraph, (2017), *Knowledge Must Come First, Then Teaching*. Cyrchwyd: <http://www.telegraph.co.uk/education/7027418/Knowledge-must-come-first-then-teaching.html> (Mynediad 16 Ionawr 2019).

Twiselton, S.(2003) *Beyond the curriculum: learning to teach primary literacy*. Maidenhead: Open University Press.

Ulla Hytti, Colm O’Gorman, (2004) *"What is “enterprise education”? An analysis of the objectives and methods of enterprise education programmes in four European countries*. Cyrchwyd: <https://www.emeraldinsight.com/author/Hytti%2C+Ulla> (Mynediad 15 Ionawr 2019).

Waititi, T. (2010) *The Art of Creativity*. Cyrchwyd: <https://www.youtube.com/watch?v=pL71KhNmnl8> (Mynediad 12 Ionawr 2019).

World Economic Forum. (2016) *21st Century Skills – Future Jobs for Students*.

Atodiad 1:



Atodiad 2:



Atodiad 3:

Oral and written communication

Drwy gydol yr ymarfer mae lolo wedi bod yn defnyddio iaith lafar naturiol gyda'r disgyblion. Yn gyson, mae lolo yn sicrhau ei fod yn hybu'r defnydd o Gymraeg ymysg disgyblion drwy modeli'r eirfa cywir e.e. fox - cadno. Mae ei iaith ysgrifenedig yn parhau i ddatblygu, ac ar y cyfan mae'r iaith yn gywir. Ar adegau mae rhai camgymeriadau bach ac mae'n barod i dderbyn arweiniad a chyingor er mwyn datblygu'r agweddau yma. Mae lolo wedi ymgymryd a nifer o weithgareddau allgyrsiol sydd wedi hybu iaith lafar disgyblion e.e. y sioe Nadolig a clybiau chwaraeon.

- **Comments and Evidence**

- **Targets for improvement and suggested ways forward**

Mae'r hyfforddai wedi ymgartrefu'n dda yn yr ysgol ac yn dangos gwerthoedd ac arferion proffesiynol ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae yna dystiolaeth gynyddol o lefel dda o annibyniaeth ym mhob agwedd ar addysgu ac mae yna lefel dda o annibyniaeth a blaengarwch wrth gynllunio tasgau heriol sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Mae yna awydd i dderbyn cyngor gan fentoriaid ac mae dystiolaeth o barodrwydd i bennu'u targedu'u hun i wella ei arfer. Mae'r hyfforddai'n arddangos y gallu i adnabod eu hanghenion mewn perthynas â datblygiad proffesiynol parhaus (gydag arweiniad gan y mentor). Mae gan yr hyfforddai ymrwymiad clir i gyfrannu i fywyd ehangach yr ysgol, gan gynnwys ymwneud â gweithgareddau allgyrsiol, y sioe Nadolig, cyfarfodydd staff a chlybiau ar ôl ysgol. Targed - Parhau i feithrin proffesiynoldeb yn rhinwedd y swydd a chyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol.